



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog

Ymateb Llywodraeth Cymru i
Adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith
Gymraeg a Llywodraeth Leol

Hydref 2016

1. Cyflwyniad

Cyhoeddwyd *laith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog*,¹ Adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol, yn dilyn datganiad llafar yn y Senedd ar 14 Mehefin gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol. Yn y datganiad, dwedodd yr Ysgrifennydd y Cabinet:

“Rwy’n cyhoeddi’r adroddiad heddiw am gyfnod o ymgysylltu dros yr haf [...] Rwy’n croesawu’r cyfle i wrando ar farn llywodraeth leol a rhanddeiliaid eraill wrth i ni ystyried casgliadau’r adroddiad, a chyn cyhoeddi ymateb Llywodraeth Cymru yn yr hydref.”²

Comisiynwyd yr Adroddiad yn wreiddiol gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus yng nghyd-destun cynigion Llywodraeth Cymru ar y pryd i uno Awdurdodau Lleol.

Ar 5 Mai cynhaliwyd etholiadau i’r Cynulliad. Ers hynny, mae Gweinidogion Cymru wedi cyhoeddi’r rhaglen lywodraethu *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*, a gwneud nifer o ddatganiadau pwysig ynghylch blaenoriaethau Llywodraeth Cymru i’r iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol.³ Yn ogystal, ar 23 Mehefin cynhaliwyd refferendwm yn gofyn a ddylai’r Deyrnas Unedig aros yn aelod o’r Undeb Ewropeaidd, gyda mwyafrif yn pleidleisio o blaid gadael yr UE. Prif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru yw diogelu buddiannau Cymru wrth i’r DU adael yr UE.

Gyda’i gilydd, mae’r newidiadau pwysig hyn yn creu fframwaith ar gyfer ymateb Llywodraeth Cymru i Adroddiad ac argymhellion y Gweithgor. Gellir gweithredu’r rhan fwyaf o’r argymhellion yn yr Adroddiad fel rhan o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru i’r iaith Gymraeg, diwygio Llywodraeth Leol a datblygu economaidd.

Diwygio Llywodraeth Leol

Gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ddatganiad ysgrifenedig ar 12 Gorffennaf wrth gyhoeddi yr ymatebion i’r ymgynghoriad ar Fil Llywodraeth Leol (Cymru) drafft.⁴ Dwedodd y datganiad

“Er hynny, nid oedd consensws ar strwythur Llywodraeth Leol yn y dyfodol. Er bod yr achos o blaid newid yn glir, ac yn cael ei gydnabod yn eang, nid yw’r ymatebion yn darparu cytundeb tebyg ar atebion i rai o’r heriau allweddol. Dros yr haf byddaf yn edrych ar yr holl ddewisiadau ac yn ystyried yr holl syniadau sy’n cael eu cyflwyno imi.”

¹<http://gov.wales/topics/localgovernment/language-work-and-bilingual-services/?skip=1&lang=cy>

²<http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/welshlanguagelocalgovernment/?skip=1&lang=cy>

³<http://gov.wales/about/programme-for-government/?skip=1&lang=cy>

⁴<http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/58422520/?skip=1&lang=cy>

Yn dilyn y trafodaethau hyn, ar 4 Hydref, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol ddatganiad yn gosod cyfeiriad newydd i ddiwygio Llywodraeth Leol. Ni fydd y rhaglen o uno Awdurdodau Lleol fel y'i rhagwelwyd yn y Bil drafft yn cael ei wireddu a bydd y Prif Awdurdodau yn parhau ar eu ffurf bresennol. Y bwriad yw i gynyddu cwmpas a dyfnder y cydweithio ffurfiol rhwng Awdurdodau Lleol ar lefel rhanbarthol. Bydd cyfnod o ymgysylltu pellach gyda Llywodraeth Leol a rhanddeiliaid eraill ar y cynigion hyn yn ystod y misoedd nesaf.

Yr Iaith Gymraeg

Gwnaed datganiadau o bwys hefyd yn sgil nod y Llywodraeth Cymru newydd o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Ar 12 Gorffennaf, gwnaeth Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes ddatganiad llafar yn tynnu sylw at ei flaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod, gan nodi⁵

“Mae’n gyfrifoldeb arnom ni fel Llywodraeth i osod cyfeiriad ond mae hefyd yn hanfodol i ni i gyd fel cenedl gyfan berchnogi’r her.”

Yn y datganiad hwnnw, cyhoeddodd y Gweinidog fwriad i ymgynghori ar strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg ac i adolygu Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (“Mesur 2011”), gyda’r bwriad o gyflwyno Bil yn dilyn yr adolygiad:

“Yn ei ddatganiad ar ddechrau’r Cynulliad hwn, dywedodd y Prif Weinidog y bydd y Llywodraeth yn ceisio diwygio Mesur y Gymraeg. Cafodd y Mesur ei basio ar adeg pan oedd y setliad datganoli yn wahanol, felly mae’n amserol i ni adolygu’r Mesur a bydd y gwaith yn cychwyn yn ystod y flwyddyn yma. Mae’n rhy gynnar ar hyn o bryd i nodi manylion beth fydd yn y Bil newydd, ond rwy’n awyddus i edrych eto ar y Mesur er mwyn sicrhau fod y sylfaen ddeddfwriaethol ar gyfer y dyfodol yn addas, yn gyfredol a hefyd yn sicrhau bod y broses o wneud a gosod safonau yn llai biwrocraidd.”

Noda’r Gweinidog flaenoriaethau hefyd ym myd cynllunio addysg, rôl y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, y rhaglen Cymraeg i Blant, cefnogi unigolion i siarad Cymraeg a hybu defnydd y Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc.

Cyhoeddodd y Gweinidog yr ymgynghoriad ar strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg, *Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*, ar 1 Awst.⁶ Mae’r strategaeth yn cynnig chwech o feysydd datblygu, gan gynnwys cynllunio a pholisi iaith, normaleiddio, addysg, pobl, cefnogi a hawliau.

⁵ <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/welshlanguage/?skip=1&lang=cy>

⁶ <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/welshlangstrategy/?skip=1&lang=cy>

Ar 1 Awst hefyd, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ei bod yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i adolygu gweithgareddau'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.⁷ Bydd yr adolygiad yn ystyried rôl y Coleg i'r dyfodol, ei berthynas â'r sector Addysg Bellach ac yn llywio penderfyniadau polisi a chyllid.

2. Ymgysylltu ar yr Adroddiad

Cyhoeddwyd yr Adroddiad ar wefan Llywodraeth Cymru a gwahoddwyd ymatebion iddo. Derbyniwyd naw o ymatebion i'r adroddiad. Mae'r ymatebwyr yn cynnwys unigolion neu bwyllgorau o Gyngorau Sir Caerfyrddin, Castell Nedd Port Talbot ac Ynys Môn, Prifysgolion Caerdydd a Bangor, y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Comisiynydd y Gymraeg a Chymdeithas yr Iaith. Cyhoeddir yr ymatebion llawn a chrynodeb thematig ohonynt ar wefan Llywodraeth Cymru.⁸

⁷ <http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/2016-new/collegcymraegcenedlaethol/?skip=1&lang=cy>

⁸ <http://gov.wales/topics/localgovernment/language-work-and-bilingual-services/?skip=1&lang=cy>

3. Ymateb Llywodraeth Cymru i'r Argymhellion

ARGYMHELLIAD 1(a): Dylai Llywodraeth Cymru newydd fynegi gweledigaeth uchelgeisiol a chyhoeddi strategaeth newydd ar gyfer y Gymraeg ar frys.

Cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes strategaeth ddrafft newydd ar gyfer y Gymraeg ar 1 Awst 2016, yn unol â'r ddyletswydd yn adran 78 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r strategaeth newydd yn ymgorffori gweledigaeth uchelgeisiol a nod hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith, sef *Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*. Mae ymgynghoriad cyhoeddus tri mis ar y strategaeth yn cau ar 31 Hydref 2016. Bydd y strategaeth derfynol yn dangos sut y mae Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i gyflawni ei nodau llesiant perthnasol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("Deddf 2015").

Ar sail yr ymatebion i'r ymgynghoriad, bydd Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi strategaeth derfynol yn ystod 2017, ynghyd â chynlluniau gweithredu ar gyfer y tymor byr a chanolig. Mae Adran 5 y strategaeth ddrafft yn canolbwyntio ar rai o'r gweithrediadau sydd eu hangen yn y pum mlynedd cyntaf, a'r meysydd ble mae angen datblygu polisïau manwl newydd er mwyn sicrhau bod adnoddau yn cael eu blaenoriaethu yn briodol.

ARGYMHELLIAD 1(b): Dylai Llywodraeth Cymru, ar sail ei strategaeth hir dymor i'r Gymraeg, adolygu a chyflwyno gwelliannau i Fesur 2011 a chyflwyno Bil yr Iaith Gymraeg i'r Cynulliad yn ystod cyfnod y pumed Cynulliad Cenedlaethol (2016-2021).

Mae'n briodol i gadw Mesur 2011 dan adolygiad am amryw o resymau. Mae gan Lywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg bellach brofiad o weithredu'r Mesur. Mae ein profiad o'r gyfundrefn safonau hyd yma yn awgrymu fod angen symleiddio'r broses o lunio a gosod safonau. Cytunwn fod sgôp i ailymweld â'r Mesur a'r prosesau sydd ynghlwm. Mae Gweinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes wedi cyhoeddi y byddwn yn cychwyn ar y gwaith hwnnw yn dilyn gosod y weledigaeth yn y strategaeth derfynol ac yn cyflwyno Bil newydd maes o law.

Yn *Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*, rydym yn egluro sut yr ydym am ddatblygu cydbwysedd gwell rhwng hyrwyddo, deddfwriaeth a rheoleiddio. Bydd yr ymateb i'r ymgynghoriad ar y strategaeth yn ein cynorthwyo i ystyried hyn ymhellach fel rhan o adolygiad Mesur 2011.

ARGYMHELLIAD 1(c): Dylai Llywodraeth Cymru gefnogi'r mesurau hyn gydag ymgyrch weledol i godi ymwybyddiaeth o le a phwysigrwydd yr iaith Gymraeg yn ein bywyd cyhoeddus.

Mae codi ymwybyddiaeth o le a phwysigrwydd y Gymraeg yn ein bywyd cyhoeddus yn rhan

greiddiol o ymdrechion Llywodraeth Cymru i hybu'r Gymraeg o dan ein strategaeth bresennol, a bydd hynny'n parhau i'r dyfodol o dan adain y strategaeth newydd.

Edrychwn ymlaen at ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y Strategaeth o safbwynt ein cynigion i wella ewyllys da at y Gymraeg er mwyn ei "normaleiddio" ymhellach.

ARGYMHELLIAD 2(a): Dylai Llywodraeth Cymru ddeddfu er mwyn sicrhau bod lefel o hyfedredd yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer y swyddi canlynol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru: y pennaeth gwasanaeth cyflogedig a'r prif weithredwr; y cyfarwyddwr corfforaethol gyda chyfrifoldeb am adnoddau dynol; y cyfarwyddwr addysg; y cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol.

Mae argymhellion 2(a) a 3 yn gysylltiedig.

Nid oedd unfrydedd ar yr argymhellion hyn ymysg aelodau'r Gweithgor. Roedd un aelod o'r farn "*na ellid gweithredu'r argymhellion hyn mewn rhai neu lawer o ardaloedd Llywodraeth Leol yng Nghymru.*" A rhoi o'r neilltu unrhyw gwestiwn o wrthdaro posibl rhwng polisi o'r fath a deddfwriaeth cydraddoldeb (a godwyd gan ymatebwyr o Brifysgol Caerdydd), mae hyd yn oed ymatebwyr sydd yn gefnogol i'r ddau argymhelliad mewn egwyddor yn tynnu sylw at yr heriau ymarferol byddai polisi o'r fath yn codi o ran recriwtio a prinder sgiliau iaith Gymraeg yn y farchnad gyflogaeth, gan gynnwys ar gyfer swyddi uwch reolaeth, a rolau technegol a phroffesiynol.

Mae Comisiynydd y Gymraeg ac ymatebwyr o Brifysgol Caerdydd yn pwysleisio mai'r egwyddor arweiniol yng Nghymru hyd hyn (ac mewn llefydd eraill e.e. Gwlad y Basg, Brunswick Newydd) yw y dylai fod cysylltiad uniongyrchol rhwng gofynion y swydd ei hun a sgiliau iaith Gymraeg deiliad y swydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r egwyddor hwn, sy'n sylfaen i'r safonau perthnasol o dan Fesur 2011.

Mae'r gyfundrefn safonau, fel y mae'r Comisiynydd wedi ei chymhwyso at Awdurdodau Lleol, yn mynnu bod Awdurdodau Lleol yn asesu gofynion sgiliau iaith pob swydd newydd neu wag. Mae hyn yn rhoi hyblygrwydd iddynt i ddylunio rolau a chynllunio gweithlu mewn ffyrdd sy'n manteisio i'r eithaf ar y dosbarthiad o ofynion sgiliau iaith Gymraeg yn y sefydliad. Mae gan Gomisiynydd y Gymraeg gyfrifoldeb statudol i fonitro a gorfodi'r safonau. Rydym yn nodi yn ei hymateb fod y Comisiynydd yn dweud:

"o dan y drefn safonau mae gan y Comisiynydd y gallu i ofyn i gael gweld asesiadau a gynhelir gan sefydliadau a maes o law bydd modd dysgu sut fath o asesiadau a gynhelir a'r graddau y mae sefydliadau'n ymateb i'r ddyletswydd yn gadarnhaol."

Mae yna ddadl gref hefyd y byddai perygl i amcan strategol Llywodraeth Cymru – miliwn o siaradwyr Gymraeg erbyn 2050 – pe bai dirywiad mewn ewyllys da poblogaidd tuag at yr iaith. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno gyda Chomisiynydd y Gymraeg yn ei hadroddiad pum mlynedd, *Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012–2015*, ei fod yn "*rhesymol tybio fod agwedd ffafriol tuag at y Gymraeg yn rhagofyniad ar gyfer ei defnyddio.*" Mae adeiladu a chynnal agwedd ffafriol tuag at yr iaith yn hanfodol fel rhan o strategaeth i 'normaleiddio'. Byddai polisi o osod gofynion o ran sgiliau, nad ydynt yn gysylltiedig â gofynion y swydd, yn bygwth

yr ewylllys da hwn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno bod angen arweiniad ar yr iaith Gymraeg gan y rhai sy'n arwain ein gwasanaethau cyhoeddus. Ar ôl pwysu a mesur, fodd bynnag, deugn i'r casgliad fod Argymhelliad 2(a) yn anymarferol ac na fyddai'n ddoeth i dorri'r egwyddor bod cysylltiad uniongyrchol rhwng gofynion sgiliau iaith Gymraeg a gofynion y swydd.

ARGYMHELLIAD 2(b): Os nad yw'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol ganddynt yn barod, dylai'r ddeddfwriaeth roi dyletswyddau statudol ar Awdurdodau Lleol i ddarparu hyfforddiant addas a neilltuo amser i'r unigolion dan sylw, er mwyn eu galluogi i gael y sgiliau iaith hanfodol.

Mae'r Argymhelliad hwn yn dilyn o Argymhelliad 2(a). Er nad yw Llywodraeth Cymru yn derbyn Argymhelliad 2(a), rydym yn cydnabod pwysigrwydd Argymhelliad 2(b).

Mae'r safonau sydd wedi'u rhagnodi gan y Comisiynydd i'w cymhwyso at Awdurdodau Lleol yn darparu ar gyfer hyn (Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 ("Rheoliadau 2015")). Mae safon 130 yn rhoi dyletswydd ar gyrff i ddarparu gwersi Cymraeg sylfaenol yn ystod oriau gwaith (ein pwyslais), a hyfforddiant ar ei ddefnydd i staff, ac mae safon 131 yn rhoi dyletswydd ar gyrff i ddarparu hyfforddiant pellach i staff sydd wedi derbyn hyfforddiant sylfaenol. Mae safon 129 yn rhoi dyletswydd ar gyrff i hyfforddi staff ar sut i ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn sefyllfaoedd allweddol – cyfarfodydd, cyfweiliadau a gweithdrefnau cwyno a disgybli.

Mater i'r Comisiynydd yw gosod y dyletswyddau hyn ar gyrff a monitro cydymffurfiaeth.

ARGYMHELLIAD 2(c): Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddiadau i Academi Wales (ac unrhyw sefydliad cenedlaethol arall sy'n paratoi hyfforddiant arweinyddiaeth i'r sector gyhoeddus yng Nghymru) er mwyn sicrhau amlygrwydd i'r Gymraeg yn egwyddorion Un Gwasanaeth Cyhoeddus a bod Academi Wales yn paratoi hyfforddiant i arweinwyr y gwasanaethau cyhoeddus yn y sialensiau a'r cyfrifoldebau sy'n wynebu arweinwyr mewn gwlad dwy iaith.

Mae Academi Wales yn rhan o Lywodraeth Cymru ac felly yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn safonau, yn ogystal â'r dyletswydd llesiant o dan adran 3 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r nodau llesiant yn cynnwys *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.*

Mae'r Comisiynydd yn nodi y bydd disgwyl i Academi Wales o 30 Medi 2016 gydymffurfio â safon 84 sef '*Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg*'. Dehonglir cwrs addysg yn Atodlen 1, Rhan 3, paragraff 44 y Rheoliadau fel '*unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei ddarparu neu ei darparu ar gyfer addysg neu wella sgiliau aelodau o'r cyhoedd.*'

Yn ogystal, mae Academi Wales wedi comisiynu gwaith ymchwil i sgiliau arweinyddiaeth a rheolaeth mewn gwlad dwyieithog ac wedi derbyn yr adroddiad ymchwil a'r argymhellion

cefnogol. Mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd a bydd manyleb comisiwn yn cael ei ddrafftio yn seiliedig ar yr argymhelliad i gaffael rhaglen gyda mynediad sy'n agored i uwch arweinwyr ar draws y sector gyhoeddus. Disgwylir y bydd y carfanau cyntaf yn digwydd yn ystod 2017/18.

ARGYMHELLIAD 3: Dylai sgiliau iaith Gymraeg fod yn hanfodol ar gyfer pob swydd newydd mewn pob Awdurdod Lleol yn Nghymru.

Fel a nodwyd uchod, mae Argymhellion 2(a) a 3 yn gysylltiedig.

Nid oedd unfrydedd ar yr argymhellion hyn ymysg aelodau'r Gweithgor. Roedd un aelod o'r farn "*na ellid gweithredu'r argymhellion hyn mewn rhai neu lawer o ardaloedd Llywodraeth Leol yng Nghymru.*" A rhoi o'r neilltu unrhyw gwestiwn o wrthdaro posibl rhwng polisi o'r fath a deddfwriaeth cydraddoldeb (a godwyd gan ymatebwyr o Brifysgol Caerdydd), mae hyd yn oed ymatebwyr sydd yn gefnogol i'r ddau argymhelliad mewn egwyddor yn tynnu sylw at yr heriau ymarferol byddai polisi o'r fath yn codi o ran recriwtio a prinder sgiliau iaith Gymraeg yn y farchnad gyflogaeth. Noda Comisiynydd y Gymraeg yn ei hymateb:

"cyn deddfu yn y maes hwn byddai angen sicrhau bod y drefn addysgol sydd ohoni yng Nghymru yn gallu diwallu'r gofynion ieithyddol hyn [...] 'Addysg yw prif ffynhonnell siaradwyr Cymraeg heddiw ... Ar sail y dystiolaeth sydd ar gael, ymddengys na fu cynnydd arwyddocaol dros y blynyddoedd diwethaf yn y niferoedd sy'n derbyn addysg neu ofal drwy gyfrwng y Gymraeg'."

Mae Comisiynydd y Gymraeg ac ymatebwyr o Brifysgol Caerdydd yn pwysleisio mai'r egwyddor arweiniol yng Nghymru hyd hyn (ac mewn llefydd eraill e.e. Gwlad y Basg, Brunswick Newydd) yw y dylai fod cysylltiad uniongyrchol rhwng gofynion y swydd ei hun a sgiliau iaith Gymraeg deiliad y swydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r egwyddor hwn, sy'n sylfaen i'r safonau perthnasol o dan Fesur 2011 y mae gan Gomisiynydd y Gymraeg gyfrifoldeb statudol i'w monitro a'u gorfodi

Mae yna ddadl gref hefyd y byddai perygl i amcan strategol Llywodraeth Cymru – miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 – pe bai dirywiad mewn ewyllys da poblogaidd tuag at yr iaith. Mae adeiladu a chynnal agwedd ffafriol tuag at yr iaith yn hanfodol fel rhan o strategaeth i 'normaleiddio'. Byddai polisi o osod gofynion o ran sgiliau, nad ydynt yn gysylltiedig â gofynion y swydd, yn bygwth yr ewyllys da hwn.

Ar ôl pwysu a mesur, deawn i'r casgliad fod Argymhelliad 3 yn anymarferol ac na fyddai'n ddoeth i dorri'r egwyddor bod cysylltiad uniongyrchol rhwng gofynion sgiliau iaith Gymraeg a gofynion swyddi mewn Awdurdodau Lleol.

ARGYMHELLIAD 4: Dylai Awdurdodau Lleol, gan gynnwys yn eu swyddogaeth fel Awdurdodau Addysg Lleol, fod dan ddyletswydd statudol i gynllunio gweithlu o safbwynt sgiliau ieithyddol, a lle bo angen, i baratoi hyfforddiant addas i gwrdd â'r anghenion hynny.

Mae'r gyfundrefn safonau bresennol sy'n gymwys i awdurdodau Lleol yn darparu ar gyfer cynllunio gweithlu o safbwynt sgiliau ieithyddol ac ar gyfer darparu hyfforddiant addas. Mae paragraff 5 o Atodlen 3 y Rheoliadau, sef safonau 127-135, yn ymwneud yn uniongyrchol â "safonau ynghylch corff yn meithrin sgiliau yn y Gymraeg drwy gynllunio a hyfforddi ei weithlu."

ARGYMHELLIAD 5(a): Dylai'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ddatblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer Cymraeg yn y gweithle erbyn diwedd 2016, i'w gyflenwi gan y darparwyr o ddechrau mis Medi 2017.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y pwysigrwydd a'r brys i gael strategaeth genedlaethol ar gyfer diwygio a gwella darpariaeth Cymraeg yn y gweithle, er mwyn cynorthwyo a chefnogi sefydliadau a gwasanaethau cyhoeddus, nid yn unig i gydymffurfio â'r gyfundrefn safonau ond i fod yn uchelgeisiol ac arloesol dros y Gymraeg.

Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn llawn weithredol ers mis Awst. Diben y Ganolfan yw i "roi arweiniad strategol i'r maes dysgu Cymraeg i oedolion".⁹ Mae'n hanfodol fod y Ganolfan yn gweithio ar y cyd gyda chyflogwyr a darparwyr i sicrhau strategaeth a chyflenwad addas sy'n cefnogi nod Llywodraeth Cymru i gael *Miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*.

Yn ogystal â'r gweithredoedd sydd ganddynt o dan yr amcanion strategol eraill, mae *Cynllun Strategol* y Ganolfan yn nodi yr hyn maent yn bwriadu ei gyflawni yn 2016/17 o safbwynt Cymraeg i'r gweithle o dan *Amcan Strategol 2: Datblygu cynlluniau arloesol i sicrhau cyfleoedd a chyd-destunau i'r dysgwyr ddefnyddio eu Cymraeg yn hyderus*:

- Ymgynghori gyda chyflogwyr wrth ddatblygu Strategaeth Cymraeg yn y Gweithle.
- Cyhoeddi Strategaeth Cymraeg yn y Gweithle.
- Cynnal cynllun peilot gyda chyflogwyr arwyddocaol.
- Datblygu partneriaethau gweithredol gyda chyrff mewn amrywiol sectorau.
- Trafod darpariaethau anffurfiol a lled-ffurfiol gyda darparwyr a phartneriaid.

ARGYMHELLIAD 5(b): Dylai cyflenwyr masnachol hyfforddiant Cymraeg yn y gweithle a fwriedir at ddefnydd y gwasanaethau cyhoeddus gael eu cytundebu o fewn fframwaith strategol a osodir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y dylai holl ddarparwyr Cymraeg yn y gweithle gael eu cytundebu o fewn fframwaith strategol i'w arwain gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg

⁹ *Cynllun Strategol* y Ganolfan, <http://dysgucymraeg.cymru/swyddi-canolfan-dysgu-cymraeg-cenedlaethol>

Genedlaethol, yn bennaf er mwyn sicrhau bod eu darpariaeth o safon uchel ac yn cael ei gynllunio'n strategol i ddiwallu anghenion cyflogwyr, ac er mwyn osgoi dyblygu o ran datblygu adnoddau.

Bydd y dull orau o weithredu'r argymhelliad hwn yn cael ei ystyried wrth i'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol ddatblygu ei strategaeth ar gyfer darpariaeth Cymraeg yn y Gweithle, ac yn unol â rheolau caffael.

ARGYMHELLIAD 5(c): Dylai Llywodraeth Cymru fabwysiadu un fframwaith hyfedredd iaith Gymraeg safonol i'w defnyddio gan y sector gyhoeddus gyfan yng Nghymru.

Mae cwricwlwm cyfredol Cymraeg i Oedolion wedi ei fapio i Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewrop ar gyfer ieithoedd. Mae'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol wrthi yn adolygu cwricwlwm Cymraeg i Oedolion er mwyn creu un fframwaith cenedlaethol ar gyfer dysgu Cymraeg, i'w ddefnyddio gan ddarparwyr, y sector gyhoeddus a chyflogwyr yn y sector breifat yn y dyfodol.

Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i sut fydd y fframwaith hwn yn cysylltu â'r cwricwlwm newydd sy'n cael ei ddatblygu ar gyfer ysgolion, er mwyn sicrhau bod un continwwm o ddysgu Cymraeg o'r crud i'r bedd.

ARGYMHELLIAD 6: Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Phrifysgolion Cymru i sicrhau bod cwrs MPA/MBA cyfrwng Cymraeg ar gael i arweinwyr y dyfodol mewn Llywodraeth Leol, ac ariannu 8 o lefydd bob blwyddyn am y pum mlynedd nesa.

Ar 1 Awst, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC, adolygiad o rôl y Coleg Cymraeg Cenedlaethol at y dyfodol. Bydd hwn yn gyfle i ystyried blaenoriaethau'r Coleg.

Mae gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol rôl bwysig i sicrhau bod proffesiynau o bob math yng Nghymru yn elwa o raddedigion sydd wedi'u haddysgu a'u hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg. Bydd datblygu cwrs MPA/MBA cyfrwng Cymraeg yn cynyddu'r cyfleon i raddedigion i barhau i astudio at radd uwch drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn sicrhau gweithlu ac arweinwyr i'r sector Lywodraeth Leol sydd yn medru ar sgiliau iaith Gymraeg.

Mae angen ystyried sut orau i gyflawni hyn drwy gadarnhau anghenion yr Awdurdodau Lleol, a sicrhau fod cynnwys cwrs yn gweddu i'r gofynion, cyn datblygu'r capasiti a strwythur cenedlaethol i darparu'r cwrs mewn modd effeithiol. Bydd y niferodd bychain o fyfyrwyr posib yn golygu y bydd yna gost i gynnal y ddarpariaeth a bydd angen ystyried modelau gwahanol i ddarparu cwrs o'r fath fydd yn sicrhau fod y costau a dyfodol cwrs yn gynaliadwy.

ARGYMHELLIAD 7: Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Technoleg Iaith a chronfa technoleg iaith i roi arweiniad yn y maes hwn.

Rydym yn cytuno gyda'r argymhelliad y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu Bwrdd Technoleg Iaith i roi arweiniad ym maes technoleg iaith. Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn buddsoddi mewn gwaith i ddatblygu technolegau iaith megis technoleg llais i destun Cymraeg.

O dan *Maes datblygu 5: Cefnogi* yn y strategaeth ddrafft, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r amcan hwn:

“Parhau i ddatblygu'r ddarpariaeth dechnolegol a digidol er mwyn galluogi pawb i fyw eu bywydau drwy'r Gymraeg.

Sut:

- *Buddsoddi mewn cynlluniau i greu seilwaith technolegol (cyfieithu â chymorth cyfrifiadur, deallusrwydd artiffisial (AI), technoleg adnabod llais, ac ati) fel bod modd defnyddio'r Gymraeg ar declynnau electronig.*
- *Dylanwadu ar y sector preifat i fuddsoddi mewn technoleg iaith yng Nghymru, mewn partneriaeth â'r sector technoleg iaith yn rhyngwladol.”*

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion a ddaw dros gyfnod yr ymgynghoriad cyn cyhoeddi strategaeth derfynol a chynlluniau gweithredu yn 2017.

ARGYMHELLIAD 8(a): Dylai cynyddu'r defnydd o wasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg fod yn nod penodol yn strategaeth nesaf Llywodraeth Cymru i'r iaith Gymraeg.

O dan *Maes datblygu 2: Normaleiddio* yn y strategaeth ddrafft, mae Llywodraeth Cymru yn nodi'r amcan hwn:

“Gweld y Gymraeg fel elfen naturiol o fod yn ddinesydd yng Nghymru er mwyn ei gwneud yn berthnasol i bawb, boed yn siaradwyr Cymraeg, Saesneg neu iaith arall, ac ennyn gwerthfawrogiad ohoni ymysg pobl sy'n symud i Gymru.

Sut:

- *Creu sefyllfa lle mae'n gwbl arferol i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn eu hymwneud â'r wladwriaeth a sefydliadau cyhoeddus yng Nghymru.*
- *Cynyddu hyder pobl i ddefnyddio'r Gymraeg fel eu bod yn fwy tebygol o ddechrau sgysiau yn Gymraeg a dewis defnyddio gwasanaethau Cymraeg.*
- *Sicrhau bod y Gymraeg yn rhan amlycach o'r amgylchedd gweledol-clywedol fel bod modd gweld bod ganddi statws swyddogol a'i bod yn rhan annatod o dirwedd ieithyddol y wlad.*
- *Gwella ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n effeithio ar arferion ieithyddol pobl ar bwytiau allweddol yn eu bywydau drwy gynnal ymchwil hydredol hirdymor.”*

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion a ddaw dros gyfnod yr ymgynghoriad cyn

cyhoeddi strategaeth derfynol yn 2017, yn ogystal a chynlluniau gweithredu.

ARGYMHELLIAD 8(b): Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu ymchwil ansoddol i ddeall y ffactorau a'r amodau sy'n dylanwadu ar ddewisiadau unigolion a) wrth ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith a b) wrth ddefnyddio gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

Byddwn yn ystyried hyn fel rhan o strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru, *Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050*.

Mae'r strategaeth ddrafft yn cydnabod pwysigrwydd ymchwil all gynorthwyo i gynllunio ymyriadau penodol i newid ymddygiad. Er enghraifft, nodir bwriad Llywodraeth Cymru i gymryd camau i wella dealltwriaeth yn y meysydd canlynol:

- Maes datblygu 2: Normaleiddio *"Gwella ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n effeithio ar arferion ieithyddol pobl ar bwyntiau allweddol yn eu bywydau drwy gynnal ymchwil hydredol hirdymor."*
- Maes datblygu 3: Addysg *"Defnyddio canfyddiadau ymchwil hydredol i ganfod pryd y mae ymyriadau penodol yn fwyaf tebygol o wella'r gyfradd dilyniant [rhwng gwahanol gyfnodau addysg a'r byd gwaith]."*
- Maes datblygu 4: Pobl *"gwella ein dealltwriaeth o'r ffactorau lleol sy'n effeithio ar y Gymraeg, ac o'r drafodaeth ynghylch sut y mae'r diffiniad o "gymuned" yn esblygu, a chynllunio'n unol a hynny."*

Nodwn hefyd y sylw y mae'r Comisiynydd yn talu at bwysigrwydd ymchwil yn ei hymateb i'r adroddiad.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr ymatebion a ddaw i'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft cyn cyhoeddi strategaeth derfynol a chynlluniau gweithredu yn 2017.

ARGYMHELLIAD 8(c): Ar sail yr ymchwil hyn, dylai Llywodraeth Cymru ariannu ymyraethau ymddygiadol effeithiol i gynyddu'r defnydd o wasanaethau Llywodraeth Leol drwy'r Gymraeg, gan gynnwys gwasanaethau digidol, ac i hybu gweinyddiaeth ddwyieithog.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ariannu ymyraethau i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a gwasanaethau iaith Gymraeg er mwyn cyrraedd y nod o filiwn o siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn ystyried sut orau i wneud hyn yn y dyfodol yng ngolau'r ymatebion a ddaw i'r ymgynghoriad ar y strategaeth ddrafft.

ARGYMHELLIAD 9: Dylai Llywodraeth Cymru osod dyletswydd statudol ar Lywodraeth Leol i hybu datblygiad economaidd lleol, a sicrhau ystyriaeth o dwf a ffyniant yr iaith Gymraeg fel rhan o'r dyletswydd hwnnw.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod saith o nodau llesiant

sy'n cynnwys y canlynol:

- *Cymru lewyrchus*
- *Cymru o gymunedau cydlynus*
- *Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*

O dan adran 3 Deddf 2015, rhaid i bob Awdurdod Lleol osod amcanion a ddylunnir er mwyn “cyfrannu i'r eithaf at gyrraedd pob un o'r nodau llesiant” a chymryd “pob cam rhesymol (wrth arfer ei swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion hynny.” Wrth wneud hynny, rhaid iddynt weithio yn ôl yr egwyddor datblygu cynaliadwy, a ddiffinnir yn adran 5 Deddf 2015:

- Hirdymor - Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
- Atal - Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
- Integreiddio - Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
- Cydweithio - Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
- Cynnwys - Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.¹⁰

Mae gan Archwilydd Cyffredinol Cymru ddyletswydd dan adran 15 Deddf 2015 i gynnal ymchwiliadau o bob corff cyhoeddus a enwir yn y Ddeddf er mwyn asesu i ba raddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth gosod amcanion llesiant a chymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Mae dyletswydd cyffredinol ar Gomisinydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (o dan adran 18 Deddf 2015) i hyrwyddo yr egwyddor datblygu cynaliadwy ac i fonitro ac asesu cyflawniad yr amcanion llesiant a osodir gan gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Awdurdodau Lleol.

Gyda'i gilydd, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried bod Deddf 2015 yn gosod dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol i gyfannu datblygu economaidd, cadernid cymunedau a chefnogaeth i ffyniant yr iaith Gymraeg drwy eu penderfyniadau a'u gweithredoedd.

ARGYMHELLIAD 10: Dylai Llywodraeth Cymru mewn partneriaeth gyflawn gyfartal â Llywodraeth Leol ddatblygu a gweithredu strategaeth economaidd-ieithyddol ar gyfer siroedd Môn, Gwynedd, Ceredigion, Caerfyrddin ac ardaloedd perthnasol cyfagos, yn seiliedig ar drefi Bangor, Aberystwyth, Caerfyrddin a Llanelli.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd economi ffyniannus mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys yr ardaloedd a nodwyd. Heb economi ffyniannus a swyddi

¹⁰ <http://thewaleswewant.co.uk/cy/cefndir/future-generations-bill/egwyddor-datblygu-cynaliadwy>

da, byddai sefyllfa trefi a chymunedau gwledig yn gallu dirywio gydag effaith andwyol ar yr iaith. Mae'r rhaglen lywodraethu, *Symud Cymru Ymlaen 2016-2021*, yn gosod allan sut ydym am gyrraedd Cymru sy'n ffyniannus a diogel, iach ac egniol, gydag uchelgais a dysgu, ac yn unedig a chysylltiedig. Mae'n gosod allan ystod eang iawn o weithredoedd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau trefi a chymunedau gwledig llwyddiannus a chynaliadwy, yn ogystal â rhaglenni gwaith i wella gwasanaethau cyhoeddus, tai, is-adeiledd digidol, trafnidiaeth, twristiaeth, cefnogi busnes, addysg a hyfforddiant, arloesedd a chefnogaeth i sectorau a chlystyrau penodol fel y diwydiannau creadigol.

Mae'n bwysig er hynny, ein bod yn meithrin ffordd ymlaen gyd gysylltiedig yn hytrach na datblygu lluo o strategaethau at bob pwrpas unigol ac fe danategir *Symud Cymru Ymlaen* gan bedair strategaeth sylweddol sy'n trawstorri. O dan Ddeddf 2015, mae gan Awdurdodau Lleol gyfrifoldeb i roi arweiniad wrth ddatblygu cynlluniau llesiant ar gyfer eu hardaloedd drwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, cynlluniau sy'n integreiddio amcanion datblygu economaidd, cymunedol a ieithyddol. Mae deddfwriaeth bresennol yn caniatáu i Awdurdodau Lleol wneud hynny ar y cyd gydag Awdurdodau Lleol eraill. Bydd Llywodraeth Cymru yn hybu, cefnogi a hyrwyddo'r math yma o gydweithio ffurfiol, nid yn unig yn y dinas-ranbarthau ond hefyd yng Ngogledd Cymru ac yn y Gorllewin a'r Canolbarth.

ARGYMHELLIAD 11: Dylai Llywodraeth Cymru fonitro datblygiad Dinas-Ranbarth Bae Abertawe i sicrhau bod ffyniant y Gymraeg yn nwyrain Sir Gaerfyrddin (yn cynnwys Llanelli a chymoedd Gwendraeth ac Aman) yn flaenoriaeth bwrpasol.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio hybu a hyrwyddo cydweithio ar draws y dinas ranbarthau. Fodd bynnag, yn y pen draw mae'n fater i bartneriaid o fewn y dinas ranbarthau i bennu eu blaenoriaethau ar gyfer datblygu a thwf, wrth gydnabod bod yna gyfleon sylweddol i'r iaith Gymraeg mewn dinas ranbarthau ffyniannus gyda chysylltiadau da.

Pan fo Awdurdodau Lleol (ac unrhyw gyrff eraill sy'n ddarostyngedig i'r ddeddfwriaeth) yn gweithredu unrhyw un o'u swyddogaethau yng nghyd-destun y dinas ranbarthau, yna maent yn ddarostyngedig i'r gyfundrefn safonau o dan Fesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011, fel mae'r Comisiynydd wedi ei chymhwyso atynt, a'r amcanion llesiant a dyletswyddau eraill o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mater i Gomisiynydd y Gymraeg, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ac Archwilydd Cyffredinol Cymru yw i fonitro a gweithredu fel sy'n gymwys.

ARGYMHELLIAD 12: Dylai Llywodraeth Cymru a'n Prifysgolion fuddsoddi mewn gwaith ymchwil sylfaenol i ddatblygu model sy'n disgrifio elfennau hanfodol strategaeth ieithyddol-economaidd effeithiol fel sail i ddatblygu polisi ymhellach.

Bydd datblygiad y pedair strategaeth drawstoriadol, *Ffyniannus a Diogel, Uchelgais a Dysgu, Iach ac Egniol* ac *Unedig a Chysylltiedig*, yn fframio blaenoriaethau ymchwil Llywodraeth Cymru.

ARGYMHELLIAD 13: Dylai Llywodraeth Cymru gynnwys adran ar dueddiadau'r dosbarthiad daearyddol o siaradwyr Cymraeg dros y 25 mlynedd nesa yn ei hadroddiad cyntaf ar dueddiadau tebygol y dyfodol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015.

Derbyn.

ARGYMHELLIAD 14: Dylai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dalu sylw i bolisi ac arfer da economaidd-ieithyddol yn ei chynllun gwaith , gan gynnwys yng nghydestun y dinas-ranbarthau, ac adrodd arno yn ei Hadroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf.

Mater i Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru yw hyn.